

Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin

# Cynllun Ardal

ar gyfer Anghenion Gofal a Chefnogaeth

2018-2023



## Crynodeb Gweithredol

## ***Pam y mae gennym gynllun ardal?***

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016 ac mae'n trawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cyflwyno yng Nghymru. Mae Adran 14A y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i lunio cynllun ardal. Mae'r cynllun yn ystyried anghenion gofal a chefnogaeth pobl, yn seiliedig ar ganfyddiadau Asesiad Poblogaeth 2016/17, ac mae'n amlinellu'r camau gweithredu y mae eu hangen er mwyn diwallu'r anghenion hyn.

## ***Beth oedd yr Asesiad Poblogaeth yn ei gynnwys?***

Roedd yr asesiad poblogaeth yn ymarfer casglu gwybodaeth a'i fwriad yw helpu darparwyr gwasanaeth i ddeall mwy am fywydau pobl yn yr ardal a'u galluogi nhw i wneud penderfyniadau gwell a mwy hyddysg am y ffordd y mae gwasanaethau gofal a chefnogaeth yn cael eu cyflwyno.



Ar gyfer Asesiad Poblogaeth Bae'r Gorllewin, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (PABM) yn gweithio ar y cyd â sefydliadau partner yn y trydydd sector i gasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- yr amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth pobl sy'n byw yn y rhanbarth
- lle mae bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth, a sut gellir mynd i'r afael â'r rhain
- pa newidiadau y mae eu hangen i wella gwasanaethau yn y dyfodol.

Roedd yr asesiad poblogaeth hefyd yn ystyried anghenion cefnogi gofalwyr, yn ogystal ag ystyried yr amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau ataliol sydd ar gael ar draws y rhanbarth.

Gwnaed yr ymarfer yn ystod 2016/17 a chyhoeddwyd y fersiwn derfynol ar 1 Ebrill 2017 (gweler [www.westernbaypopulationassessment.org/cy/home-welsh/](http://www.westernbaypopulationassessment.org/cy/home-welsh/))

## ***Themâu Craidd***

Rhennir yr asesiad poblogaeth i benodau allweddol sy'n seiliedig ar gyfres o themâu craidd, sef:

- Pobl hŷn
- Plant a phobl ifanc
- Gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt
- Iechyd meddwl
- Anabledd dysgu ac awtistiaeth
- Nam synhwyraidd
- Iechyd ac anabledd corfforol
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Diogelu a threfniadau diogelu rhag colli rhyddid
- Sefydliadau Diogel.

Roedd yr asesiad poblogaeth hefyd yn tynnu sylw at nifer o themâu trawsbynciol, yr oeddent yn cynnwys:

- Cynyddu lefelau anghenion pobl ag anghenion cymhleth, cyflyrau cronig a thymor hir.
- Argaeledd gwasanaethau, gan gynnwys cludiant
- Gwasanaethau atal a chefnogi yn y cymunedau
- Unigedd ac arwahanrwydd cymdeithasol ar gyfer iechyd a lles gwell
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Darparu technoleg gynorthwyol a thele-ofal ar gyfer pobl i gynnal annibyniaeth
- Galw cynyddol, adnoddau sy'n lleihau
- Trawsnewid rhwng gwasanaethau i oedolion a phlant
- Gwasanaethau iechyd meddwl ataliol (lefel isel) ac arbenigol ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion (gwnaeth yr adran hon nodi'r nifer uchaf o anghenion cefnogaeth a gofal)
- Atebion llety priodol ar gyfer ystod eang o ddinasyddion ag anghenion
- Cefnogi'r nifer cynyddol o ofalwyr a gofalwyr ifanc.

## Blaenoriaethau rhanbarthol

Ar ôl ystyried canfyddiadau'r asesiad poblogaeth, mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin wedi nodi'r canlynol fel blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithio'n integredig:

- Pobl hŷn
- Plant a phobl ifanc
- Iechyd meddwl
- Anabledd dysgu ac awtistiaeth
- Gofalwyr (mae hon yn thema drawsbynciol).

50+

### *Pobl hŷn*

<b>OP.P1</b>	Datblygu a pharhau i ddarparu amrywiaeth cynaliadwy o wasanaethau sy'n bodloni'r galw, gan alluogi unigolion i aros gartref, gan gynnal eu hannibyniaeth am gyhyd â phosib a chan dderbyn cefnogaeth briodol ar adegau o angen.
<b>OP.P2</b>	Datblygu a chynnig amrywiaeth o opsiynau llety yn y dyfodol i fodloni'r galw a galluogi pobl i fod yn annibynnol am gyhyd â phosib.
<b>P3</b>	Datblygu cadernid a chydlyniant cymunedol i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol mewn ardaloedd lle mae pobl hŷn yn byw.
<b>OP.P4</b>	Datblygu model optimwm ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn (gan gynnwys elfennau perthnasol Strategaeth/Cynllun Dementia Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru).



### *Plant a phobl ifanc*

<b>CYP.P1</b>	Datblygu amrywiaeth gwell o wasanaethau ar gyfer pob plentyn ag anawsterau emosiynol a phroblemau lles neu iechyd meddwl, gan gynnwys pontio ac un pwynt mynediad i wasanaethau.
<b>CYP.P2</b>	Datblygu trefniadau amlasiantaeth cadarn gyda phlant ag anghenion cymhleth.



## *lechyd Meddwl*

<b>MH.P1</b>	Dechrau gweithredu'r model optimwm ar gyfer gwasanaethau lechyd Meddwl i Oedolion y cytunwyd arno, fel yr amlinellir yn Fframwaith Strategol Bae'r Gorllewin i Oedolion â Phroblemau lechyd Meddwl.
<b>MH.P2</b>	Sicrhau bod lleoliadau ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth yn effeithiol, yn seiliedig ar ganlyniadau ac yn briodol.



## *Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth*

<b>LD.P1</b>	Datblygu modelau gofal lle nad yw oed o bwys, sy'n canolbwyntio ar bobl i sicrhau atal ac ymyrryd yn gynnar drwy wasanaethau amlddisgyblaeth, drwy ailfodelu gwasanaethau i ffwrdd o ofal mewn sefydliadau i wasanaethau cymunedol.
--------------	---

### **Sylwer:**

Bu barn wahanol ynghylch a ddylid ystyried anabledd dysgu ac awtistiaeth fel un flaenoriaeth/bennod neu fel penodau ar wahân. Rydym wedi ceisio adlewyrchu'r amrywiaeth barn, ac wedi'u cynnwys fel un bennod yn y Cynllun Ardal, ond maent yn benodau ar wahân yn y Cynllun Gweithredu.



## *Gofalwyr (trawsbynciol)*

<b>CA.P1</b>	Sicrhau bod gwaith yn parhau i hyrwyddo cydnabyddiaeth gynnar o ofalwyr fel eu bod yn derbyn gwybodaeth a chefnogaeth yn amserol.
<b>CA.P2</b>	Datblygu a pharhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor, cymorth a chefnogaeth i bob gofalwr, gan ei alluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a chynnal ei iechyd a'i les ei hun.
<b>CA.P3</b>	Cydgynhyrchu gyda phob gofalwr ar sail unigol a strategol fel bod ei gyfraniad yn cael ei gydnabod a'i lais yn cael ei glywed.

## ***Themâu/penawdau eraill***

Mae'r cynllun ardal hefyd yn tynnu sylw at feysydd gwaith a wneir yn lleol gan awdurdodau lleol a Bwrdd Iechyd PABM fel rhan o'u busnes craidd, neu drwy bartneriaethau presennol ar draws y rhanbarth.

Dyma nhw:



### ***Nam Synhwyrdd***

<b>SI.P1</b>	Cytuno ar flaenoriaethau a chamau gweithredu drwy gydgyhyrchu, gwella canlyniadau lles ar gyfer ein dinasyddion mwyaf diamddiffyn â nam synhwyrdd a dau nam synhwyrdd i gyflawni eu canlyniadau lles.
<b>SI.P2</b>	Cymryd ymagwedd amlasiantaeth ac ystyried y ffordd fwyaf priodol i lunio strategaeth gyfathrebu a fydd yn gwneud gwybodaeth, cyfathrebu a thechnoleg, a manau cyhoeddus yn fwy hygyrch i bobl â nam synhwyrdd.
<b>SI.P3</b>	Gwneud gwybodaeth am wasanaethau cyhoeddus yn fwy hygyrch i bobl â nam synhwyrdd.
<b>SI.P4</b>	Deall anghenion poblogaeth o fewn grwpiau targed penodol yn well, a'r amrywiaeth llawn o adnoddau.



### ***Iechyd ac Anabledd Corfforol***

<b>HPD.P1</b>	Ffocws penodol ar wella'r amrywiaeth o opsiynau tai hyblyg sydd ar gael yn y rhanbarth.
<b>HPD.P2</b>	Hyrwyddo ymyrryd ac atal cynnar drwy gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth.
<b>HPD.P3</b>	Trefnu/archwilio grwpiau lleol sydd ar gael er mwyn rhoi eglurder ac arweiniad i gomisiynwyr o ran anghenion penodol poblogaethau gwahanol.



## ***Diogelu a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid***

### **Sylwer:**

Rheolir blaenoriaethau rhanbarthol gan [Fyrddau Diogelu Bae'r Gorllewin](#) ac ni fydd yn cael eu llywodraethu gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin (ac eithrio adroddiad blynyddol at ddibenion gwybodaeth).

<b>SDoL.P1</b>	Lleihau camfanteisio ar draws Bae'r Gorllewin, gan ganolbwyntio'n benodol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, plant ar goll, caethwasiaeth fodern a County Lines.
<b>SDoL.P2</b>	Gwella'r ddarpariaeth gofal ar draws Bae'r Gorllewin ar gyfer gofal preswyl a gofal a chefnogaeth yn y cartref, gan ddatblygu safonau diogelu ar gyfer cartref gofal a monitro gweithredu'r safonau hynny.



## ***Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)***

### **Sylwer:**

Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n rheoli blaenoriaethau rhanbarthol ac ni fyddant yn cael eu llywodraethu drwy Fae'r Gorllewin.

<b>VAW.P1</b>	Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau VAWDASV ar draws poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
<b>VAW.P2</b>	Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad difriol bob amser yn anghywir
<b>VAW.P3</b>	Cynyddu'r ffocws ar sicrhau bod troseddwy'r yn atebol a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr.
<b>VAW.P4</b>	Blaenoriaethu atal ac ymyrryd yn gynnar.
<b>VAW.P5</b>	Hyfforddi gweithwyr proffesiynol i roi ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.
<b>VAW.P6</b>	Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ag adnoddau priodol sydd o safon, sy'n seiliedig ar anghenion a chryfderau ac sy'n ymateb at rywedd, ar draws ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.



## **Sefydliadau Diogel**

Dyma feysydd allweddol o waith a gyflwynir gan bartneriaethau a threfniadau cynllunio eraill ar draws y rhanbarth:

- Abertawe:
  - Gwaith y Grŵp Gweithredu Amlasiantaeth
- Castell-nedd Port Talbot:
  - Cyflwyno cais am ddarpariaeth camu i lawr yn Uned Ddiogel Hillside a dod o hyd i opsiynau posib
  - Hysbysebu a chyflogi swyddog ailsefydlu
  - Diweddarau'r holl gyfleusterau yn Uned Ddiogel Hillside, yn unol ag anghenion y gwasanaeth
  - Rhoi cyflwyniad i'r holl bartneriaid rhanbarthol gan amlinellu addasu pwrpas Hillside
- Pen-y-bont ar Ogwr:
  - Cyflwyno yn erbyn Cynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth Lles a'r Gwasanaethau Cymdeithasol (2017-18)
  - Gwaith Bwrdd Partneriaeth Iechyd y Carchar a Grwpiau Goruchwylio Strategol amrywiol

## **Cynllun Gweithredu**

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Ardal Bae'r Gorllewin, sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Ardal ac yn amlinellu sut caiff blaenoriaethau Bwrdd y Bartneriaeth Rhanbarthol eu cyflawni. Gellir gweld hyn drwy fynd i [www.baergorllewin.org.uk/cynllunardal](http://www.baergorllewin.org.uk/cynllunardal)

Adroddir am gynnydd drwy Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin, a gaiff ei gyhoeddi ar [www.baergorllewin.org.uk](http://www.baergorllewin.org.uk)

Adroddir am y blaenoriaethau a gyflwynir gan bartneriaethau eraill drwy ddulliau eraill, megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, neu drwy ddulliau cynllunio sefydliadol megis Cynlluniau Corfforaethol/Gwella'r Awdurdod Lleol a Chynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd PABM.

Adolygir y Cynllun Ardal yn flynyddol.

**Os oes angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol arnoch, cysylltwch â Swyddfa Rhaglen Bae'r Gorllewin drwy e-bostio [western.bay@swansea.gov.uk](mailto:western.bay@swansea.gov.uk) neu ffonio 01792 633805**